# Prosesu adnewyddiadau yswiriant uniongyrchol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â phrosesu adnewyddiadau yswiriant uniongyrchol. Bydd eich gwaith yn cynnwys prosesu adnewyddiadau uniongyrchol, sy'n syrthio o fewn eich awdurdod, gyda nodweddion sy'n dangos y gallai fod angen tansgrifennu o'r newydd. Gall hyn gynnwys rhai lle gwnaed hawliadau neu lle mae newidiadau o ran amgylchiadau. Byddwch yn casglu gwybodaeth gan y cwsmer ac yn sicrhau eglurhad yn ei chylch. Byddwch yn gwahodd adnewyddiadau ac yn cyflwyno'r dogfennau gofynnol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau. Bydd angen i chi gyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn gryno.

Bydd y safon hon yn addas i chi os ydych chi'n gweithio i yswiriwr neu ganolwr, neu sefydliad arall sydd ag awdurdod dirprwyedig.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Delio gyda'r adnewyddiadau hynny sydd o fewn eich lefel chi o awdurdod, a throsglwyddo eraill i'r person priodol
2. Delio gydag adnewyddiadau sydd i ddod o fewn y terfynau amser sy'n ofynnol gan eich sefydliad a'r rheoleiddiwr
3. Adnabod unrhyw nodweddion sy'n dangos y dylid tansgrifennu o'r newydd, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Casglu gwybodaeth neu ddogfennaeth ddigonol sy'n ofynnol i symud ymlaen a phenderfynu a ddylid derbyn neu wrthod adnewyddiadau
5. Egluro unrhyw wybodaeth sy'n aneglur a chasglu gwybodaeth ychwanegol lle bo angen, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Penderfynu ar effaith penderfyniad i wrthod adnewyddu ar eraill, a sicrhau bod rhybudd digonol yn cael ei roi
7. Paratoi dogfennaeth neu ohebiaeth yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
8. Cyfeirio unrhyw sefyllfaoedd y tu allan i lefel eich awdurdod at y bobl neu'r adrannau priodol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
9. Gwahodd adnewyddu risgiau a chadarnhau unrhyw newidiadau i'r telerau a'r amodau
10. Cadw cofnodion cywir a chyflawn, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
11. Diweddaru neu gwblhau unrhyw gofnodion neu gronfeydd data ychwanegol sy'n ofynnol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
12. Cydymffurfio â gofynion cydymffurfio cyfreithiol a rheoliadol, rheoliadau'r diwydiant, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Egwyddorion a rheoliadau yswiriant a chyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
2. Strwythur y farchnad yswiriant a rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol bartïon sy'n rhan ohoni sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
3. Cwmpas y polisi, y telerau a'r amodau sy'n berthnasol i'ch gwaith, gan gynnwys estyniadau neu gyfyngiadau safonol
4. Safonau a gweithdrefnau gwasanaeth cwsmeriaid eich sefydliad, gan gynnwys y rhai ar gyfer delio gyda chwynion
5. Ffynonellau gwybodaeth a chyngor
6. Terfynau eich awdurdod a'r camau sy'n ofynnol pan fydd adnewyddiad yn syrthio y tu allan i'r terfynau hynny
7. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer rhoi yswiriant, cyhyd â bod yr amodau'n cael eu derbyn
8. Sut mae cael mynediad i gofnodion cwsmeriaid sydd eisoes yn bodoli
9. Polisi a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cyfathrebu â chwsmeriaid
10. Sut mae cymhwyso meini prawf tansgrifennu gan ddefnyddio systemau wedi'u hawtomeiddio neu â llaw
11. Gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer cyflwyno dogfennau adnewyddu
12. Egwyddorion a rheoliadau cyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
13. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac er lles pennaf y cleient a'r yswiriwr
2. Rydych yn arddangos dealltwriaeth o bobl eraill ac yn delio gyda nhw mewn modd proffesiynol
3. Rydych yn mabwysiadu agwedd ymchwilgar i gasglu manylion gofynnol sy'n hanfodol i'ch gwaith

Prosesu adnewyddiadau yswiriant uniongyrchol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPGI20 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Yswiriant Cyffredinol |
| **Geiriau Allweddol** | Hawliad yswiriant; polisi yswiriant; polisïau; hawliad; hawlydd; setliad; wedi'i yswirio; heb ei yswirio; hysbysiad |